# Asesiad Strwythuredig 2024 – Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Blwyddyn archwilio: 2024

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4354A2024

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y Bwrdd 8

Systemau sicrwydd corfforaethol 14

Dull cynllunio corfforaethol 18

Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol 22

Atodiadau

Atodiad 1—Dulliau archwilio 26

Atodiad 2—Y cynnydd a wnaed o’i gymharu ag argymhellion y flwyddyn flaenorol 28

Atodiad 3—Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio 34

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig 2024 yr Archwilydd Cyffredinol yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi ei gynllunio i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau eu bod yn defnyddio adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

2 Cynhaliwyd ein gwaith Asesu Strwythuredig 2024 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i set ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Hefyd, mae cyrff y GIG yn dal i ymdrin ag etifeddiaeth pandemig COVID-19. Felly, yn fwy nag erioed, mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau fod â threfniadau llywodraethu corfforaethol cadarn sy'n gallu rhoi sicrwydd iddynt eu hunain, y cyhoedd, a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau diogel ac ymatebol o ansawdd uchel, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

3 Bu pwyslais allweddol y gwaith ar drefniadau corfforaethol IGDC, er mwyn sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus, gyda phwyslais penodol ar yr hyn a ganlyn:

- Tryloywder, cydlyniant, ac effeithiolrwydd y Bwrdd
- Systemau sicrwydd corfforaethol
- Dull cynllunio corfforaethol
- Dull corfforaethol o reoli ariannol

Nid ydym wedi adolygu trefniadau gweithredol IGDC yn rhan o'r gwaith hwn.

4 Mae ein gwaith wedi ei lywio gan ein gwaith asesu strwythuredig blaenorol, a ddatblygwyd ac a fireiniwyd dros nifer o flynyddoedd. Mae hefyd wedi ei lywio gan yr hyn a ganlyn:

- Gorchmynion Rheolau Sefydlog, Cadw a Dirprwyo Pwerau
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Model
- Cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol Llywodraeth Cymru
- Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau'r GIG yng Nghymru (Ail Argraffiad)
- Canllawiau arferion da perthnasol eraill

Cynhaliwyd ein gwaith rhwng mis Mai 2024 a mis Awst 2024. Crynhoir y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith yn **Atodiad 1**. Cynhaliwyd ein gwaith yn unol â'r safonau archwilio a bennwyd gan y Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf.

5 Rydym hefyd yn darparu diweddariad yn yr adroddiad hwn ar gynnydd IGDC wrth fynd i'r afael ag argymhellion sydd angen sylw a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol yn **Atodiad 2**.

## Canfyddiadau allweddol

6 Ar y cyfan, canfuom fod **trefniadau corfforaethol IGDC yn cefnogi llywodraethu da a defnydd effeithlon, effeithiol, a darbodus o adnoddau. Fodd bynnag, mae angen iddo ddefnyddio ei strategaeth hirdymor newydd yn awr i ddangos ei werth a chydgrynhoi ei safle fel arweinydd a galluogwr system ddigidol yn y GIG:**

- gwnaethom ystyried a yw Bwrdd IGDC yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Canfuom fod gan IGDC Fwrdd sefydlog a chydlynol sy'n cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Mae'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni newydd yn cynyddu'r gwaith craffu ar gynnydd a risgiau rhaglenni cenedlaethol allweddol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i aelodau y Bwrdd gael mewnwelediad gan wasanaethau rheng flaen ar effaith systemau digidol yng Nghymru.
- gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn ar gyfer rheoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Canfuom fod systemau sicrwydd IGDC yn parhau i fod yn gadarn a'u bod yn gweithredu'n effeithiol, ond bod lle i ddefnyddio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn fwy wrth lunio busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau.
- gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o lunio strategaethau a chynlluniau corfforaethol ac o oruchwylio'r broses o'u cyflawni. Canfuom fod IGDC wedi gosod cyfeiriad uchelgeisiol ar gyfer y sefydliad; fodd bynnag, mae angen iddo gryfhau'r modd y mae'n asesu'r effaith a'r gwerth y mae'n eu darparu i'r GIG a gwella ei waith adrodd ar gyflawni cynlluniau mewn rhai meysydd.
- gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol. Canfuom fod gan IGDC ddull effeithiol yn gyffredinol o gyflawni gwaith cynllunio, monitro ac adrodd ariannol. Fodd bynnag, mae risgiau o hyd o amgylch cynaliadwyedd model ariannu y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol a gorddibyniaeth ar arbedion afreolaidd.

# Argymhellion

7 Manylir ar yr argymhellion sy’n deillio o’n gwaith yn **Arddangosyn 1**. Crynhoir ymateb IGDC i’n hargymhellion yn **Atodiad 3**.

**Arddangosyn 1: Argymhellion 2024**

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Cryfhau Adroddiad Trosolwg y Rhaglen y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni drwy sicrhau ei fod yn darparu asesiad cliriach o’r risgiau sy’n wynebu partneriaid a rhanddeiliaid eraill pan fo heriau sylweddol o ran cyflawni rhaglenni. (**Paragraff 23**) |
| A2 | Sicrhau bod adroddiadau ar y prif bwyntiau y pwyllgor i’r Bwrdd yn rhoi naratif cliriach ar y camau sy’n ofynnol gan y Bwrdd pan mae wedi cael gwybod am faterion. (**Paragraff 25**) |
| A3 | Cryfhau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd drwy:<br>• adrodd yn glir effaith camau gweithredu y mae IGDC yn eu cymryd i liniaru prif risgiau;<br>• adlewyrchu’r risgiau i gyflawni ei amcanion llesiant, yn awr fod y sefydliad yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015; a<br>• defnyddio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a’r asesiad risg strategol parhaus yn well i lywio rhaglenni gwaith pwyllgorau ac i osod agendâu. **(Paragraff 40)** |
| A4 | Sicrhau bod y gofrestr risg corfforaethol yn nodi ac yn gwahaniaethu’n glir rhwng rheolaethau presennol er mwyn lleihau’r tebygolrwydd o risgiau, a chamau lliniaru newydd i leihau difrifoldeb y risgiau corfforaethol. (**Paragraff 42**) |
| A5 | Sicrhau bod Cynlluniau Tymor Canolig Integredig y dyfodol yn rhoi mwy o eglurder ar y blaenoriaethau y mae’r sefydliad yn bwriadu eu cyflawni yn ystod ail a thrydedd flwyddyn y cynlluniau hynny. (**Paragraff 65**) |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A6 | Datblygu dull o adolygu effeithiolrwydd, effaith a heriau posibl ei strategaeth hirdymor o bryd i'w gilydd. (**Paragraff 71**) |
| A7 | Meintioli'r effeithlonrwydd a'r gwerth diriaethol y mae'r sefydliad yn gobeithio eu cynhyrchu o'i ffrwd waith, 'Finding more Value', er mwyn ei alluogi i fonitro cyflawniadau buddion y rhaglen a dangos gwell effeithlonrwydd mewnol i'w randdeiliaid allweddol. (**Paragraff 89**) |

# Adroddiad manwl

## Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y Bwrdd

8 Gwnaethom ystyried a yw Bwrdd IGDC yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw.

9 Canfuom fod gan **IGDC Fwrdd sefydlog a chydlynol sy'n cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Mae'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni newydd yn cynyddu'r gwaith craffu ar gynnydd a risgiau rhaglenni cenedlaethol allweddol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i Aelodau Annibynnol gael mewnwelediad gan wasanaethau rheng flaen ar effaith systemau digidol yng Nghymru**.

### Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd

10 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hybu ac yn dangos ymrwymiad i dryloywder cyhoeddus busnes y bwrdd a'r pwyllgorau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- Cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau sy'n hygyrch i'r cyhoedd;
- Papurau Bwrdd a phwyllgorau sydd ar gael i'r cyhoedd cyn y cyfarfodydd; a
- Busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau, a'r broses o wneud penderfyniadau yn cael eu cynnal yn dryloyw.

11 Canfuom fod **IGDC yn parhau i ddangos ymrwymiad cryf i dryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau.**

12 Mae gan IGDC drefniadau effeithiol ar waith o hyd i gefnogi tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau. Er enghraifft:

- mae'n parhau i weithredu rhith-gyfarfodydd yn hytrach na chyfarfod Bwrdd a phwyllgorau yn y cnawd. Mae'n ffrydio'n fyw ac yn recordio holl gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd, ac mae'n recordio'r mwyaf o'r cyfarfodydd pwyllgor[1]. Mae'n cyhoeddi'r recordiadau ar ei wefan yn fuan wedyn.
- gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am gael arsylwi unrhyw gyfarfod cyhoeddus y Bwrdd a'r Pwyllgor y mae'r sefydliad yn ei hyrwyddo ymlaen llaw gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Mae hefyd yn parhau i ddarparu cyfieithiad Cymraeg byw o bob cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd, ac mae'n ymdrechu i ddarparu Iaith Arwyddion Prydain ar gais.
- mae'n parhau i gyhoeddi papurau cyhoeddus y Bwrdd a'r pwyllgorau ar ei wefan wythnos ymlaen llaw, yn unol â'r Rheolau Sefydlog.
- mae'n parhau i wneud defnydd priodol o gyfarfodydd preifat y Bwrdd a'r pwyllgorau i drafod materion sensitif a chyfrinachol, gan ddarparu cofnodion preifat (cryno) o ansawdd da yn y cyfarfod cyhoeddus dilynol.

[1] Fel cyrff eraill y GIG yng Nghymru, nid yw IGDC yn cyhoeddi recordiadau y Fforwm Partneriaeth Lleol na'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth oherwydd eu natur gyfrinachol.

13 Canfu ein harsylwadau o gyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau eu bod yn parhau i gefnogi didwylledd a thryloywder da ymhlith aelodau y Bwrdd, yn enwedig mewn cysylltiad â'r heriau sy'n wynebu'r sefydliad. Mae'r sefydliad yn parhau i baratoi cofnodion drafft o ansawdd da gan gytuno arnynt mewn modd amserol, ac fe'u cymeradwyir yn ffurfiol yn y cyfarfod Bwrdd neu bwyllgor cyhoeddus canlynol.

## Trefniadau i gefnogi ymddygiad busnes y Bwrdd

14 Gwnaethom ystyried a oes trefniadau priodol a thryloyw ar waith i gefnogi ymddygiad effeithiol busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chynllun Dirprwyo ffurfiol, cyfoes ac sydd ar gael i'r cyhoedd sydd ar waith, sy'n nodi atebolrwydd yn glir;
- Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ffurfiol, cyfoes ac sydd ar gael i'r cyhoedd sydd ar waith, ynghyd â thystiolaeth o gydymffurfiaeth;
- polisïau a gweithdrefnau ffurfiol, cyfoes ac sydd ar gael i'r cyhoedd sydd ar waith er mwyn hybu a sicrhau cywirdeb a phriodoldeb.

15 Canfuom fod gan **IGDC drefniadau da ar waith o hyd i gefnogi ymddygiad effeithiol busnes y Bwrdd**.

16 Mae trefniadau IGDC yn parhau i gefnogi ymddygiad da busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau. Nodir y trefniadau hyn yn glir yn ei Fframwaith Sicrwydd Llywodraethu, ond mae angen diweddaru'r ddogfen i gynnwys y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni. Mae'r Rheolau Sefydlog, y Cynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau, a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan y Tîm Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, a'r Bwrdd. Mae diwygiadau diweddar i'r rhain yn adlewyrchu gofyniad statudol newydd y sefydliad i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o 30 Mehefin 2024 a diweddariadau i bortffolios y Cyfarwyddwr Gweithredol.

17 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn cynnal goruchwyliaeth briodol o'r gydymffurfiaeth â'r Cynllun Cadw a Dirprwyo mewn cysylltiad â gweithgareddau caffael, datganiadau o fuddiant, a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. Mae achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth yn brin, ond pan maent yn digwydd, mae'r pwyllgor yn cael sicrwydd ynghylch y rhesymau dros y toriad a'r camau a gymerir i ddatrys y mater. Mae holl aelodau y Bwrdd a 96% o'r staff Band 8a ac uwch wedi cwblhau datganiad o fuddiant. Mae'r Polisi Safonau Ymddygiad, a'r Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau a'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch ar gael ar wefan IGDC.

18 Mae IGDC wedi cryfhau ei brosesau monitro, olrhain ac adolygu polisïau, sy'n ei helpu i leihau nifer y polisïau sydd wedi dyddio. Noda Adroddiad Polisi Gorffennaf 2024 i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd o'r 79 o bolisïau a oedd ar waith ar draws y sefydliad, fod 25 o bolisïau mewnol wedi dyddio a bod angen eu hadolygu (o'u cymharu â 37 ar adeg ein gwaith Asesu Strwythuredig 2023). Mae 18 o bolisïau Cymru gyfan wedi dyddio hefyd, ond nid yw IGDC yn gyfrifol am eu diweddaru

nhw. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd yn y maes hwn mewn adolygiadau asesu strwythuredig yn y dyfodol.

## Effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau

19 Gwnaethom ystyried a yw cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn cael eu cynnal yn briodol ac yn effeithiol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- strwythur pwyllgor priodol, integredig ac sy'n gweithredu'n dda sydd ar waith, sy'n alinio â blaenoriaethau a risgiau strategol allweddol, sy'n adlewyrchu canllawiau perthnasol, ac yn helpu i gyflawni gofynion statudol;
- agendâu a rhaglenni gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau, sy'n cwmpasu pob agwedd ar eu Cylch Gorchwyl priodol yn ogystal â chael eu llunio'n barhaus gan Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd;
- cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau sy'n cael eu cadeirio'n dda, sy'n dilyn prosesau y cytunwyd arnynt, gydag aelodau'n cadw at ymddygiad y cyfarfodydd ac yn darparu cydbwysedd da o ran craffu, cefnogaeth a her;
- pwyllgorau sy'n cael sicrwydd gofynnol ac yn gweithredu arno, ac sy'n rhoi sicrwydd amserol a phriodol i'r Bwrdd;
- papurau Bwrdd a phwyllgorau clir ac amserol sy'n cynnwys y lefel angenrheidiol o wybodaeth sydd ei hangen/yn briodol ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol, gwaith craffu a sicrwydd.

20 Canfuom **er bod cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn parhau i gael eu cynnal yn iawn ac yn effeithiol, fod cyfleoedd i gryfhau ymhellach adroddiadau sicrwydd pwyllgorau i'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni newydd yn gwella lefel yr oruchwyliaeth ar risgiau rhaglenni digidol cenedlaethol allweddol**.

21 Mae gan IGDC strwythur Bwrdd a phwyllgorau priodol integredig o hyd sy'n gweithredu'n dda. Mae gan y Bwrdd a'r pwyllgorau gylch gorchwyl diweddar ac mae'n cynnal cofnodion gweithredu cynhwysfawr a chylchoedd busnes blynyddol. Bydd angen i IGDC ddiweddaru'r dogfennau hyn er mwyn adlewyrchu ac ymgorffori gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i fusnes arferol y Bwrdd a'r pwyllgorau a'u proses o wneud penderfyniadau.

22 Mae gan IGDC rai risgiau rhaglenni sylweddol sy'n ymwneud â datblygiadau newydd a rhaglenni digidol parhaus ehangach y mae wedi eu mabwysiadu ar ran GIG Cymru. Mae hyn yn cynnwys Gofal Llygaid Digidol, System Gwybodeg Gofal Dwys Cymru, Gwybodeg Canser, System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, a Cysylltu Gofal[2]. Ym mis Tachwedd 2023, sefydlodd y Bwrdd Bwyllgor Cyflawni Rhaglenni newydd er mwyn goruchwylio a chael sicrwydd ar y broses o gyflawni rhaglenni digidol cenedlaethol, yn unigol ac ar y cyd, fel portffolio. Cadeirydd y

[2] Rhaglen newydd a sefydlwyd i ddisodli System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru wrth iddi gyrraedd diwedd ei hoes yw Cysylltu Gofal. Nid yw'n cael ei ariannu ar hyn o bryd.

Bwrdd oedd cadeirydd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni ym mis Tachwedd 2023, ond ers hynny mae wedi ildio'r cyfrifoldeb i Aelod Annibynnol arall (**gweler Atodiad 2, 2023, Argymhelliad 1**). Mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn chwarterol, ond o ystyried y risg pwysigrwydd ac enw da sy'n gysylltiedig â rhaglenni digidol gohiriedig, dylai'r Bwrdd barhau i adolygu amlder y cyfarfodydd. Canfu ein harsylwad ar gyfarfod pwyllgor mis Mai 2024 ei fod yn gyfarfod a gadeirir yn dda gyda gwaith craffu a chwestiynu da, yn enwedig o ran cyflawni rhaglenni, risg ac effaith. Er mwyn cefnogi gwelliant pellach, mae cadeirydd y Pwyllgor yn cynnal cyfarfodydd datblygu gyda rhai aelodau pwyllgor i fyfyrio ar effeithiolrwydd cyfarfodydd pwyllgor.

23 Cyflwynodd y pwyllgor Adroddiad Trosolwg y Rhaglen yn ddiweddar er mwyn asesu'r 'hyder cyflawni' a'r risg ar draws y rhaglenni a'r portffolios digidol cenedlaethol perthnasol. Fodd bynnag, mae lle iddo fod yn gliriach o ran y risgiau a'r effeithiau ar bartneriaid a rhanddeiliaid eraill pan fo risgiau sylweddol i gyflawni rhaglenni[3] **(Argymhelliad 1, 2024)**. Mae cyfle hefyd i fireinio'r adroddiad arferol ar brif bwyntiau y pwyllgor a gyflwynir i'r Bwrdd. Mae'r adroddiadau'n defnyddio'r dull 'rhybuddio', 'sicrhau', a 'chynghori', ond nid ydynt yn glir a yw'r pwyllgor yn uwchgyfeirio materion at y Bwrdd yn ffurfiol (trafodir hyn ymhellach ym **mharagraff 25**). Yn ogystal ag Adroddiad Trosolwg y Rhaglen, mae'r pwyllgor yn cael adroddiadau manylach sy'n benodol i raglenni sy'n pwysleisio cynnydd, risgiau a gwersi a ddysgir. Ers i'r pwyllgor ddechrau ym mis Tachwedd, mae wedi cwmpasu meysydd megis System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, Map Trywydd Adnoddau Data Cenedlaethol, System Gwybodaeth Gofal Dwys Cymru, Diagnosteg, meddyginiaethau digidol, gwybodeg canser, a mamolaeth ddigidol. Fodd bynnag, ynghylch yr hyn y mae IGDC wedi ei ddiffinio fel rhaglenni digidol cenedlaethol mawr y mae'r pwyllgor wedi dewis rhoi sicrwydd. Mae hyn yn peri risg nad yw'n goruchwylio rhaglenni llai yn ddigonol. Mae IGDC yn archwilio dewisiadau ar gyfer darparu'r sicrwydd perthnasol i'r pwyllgor ar hyn o bryd.

24 Mae cadeiryddion pwyllgor yn parhau i chwarae rhan weithredol yn y broses o osod agenda cyfarfodydd ac yn gwneud defnydd priodol o'r agenda gydsynio ar gyfer busnes arferol. Mae cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n dda, gan alluogi ac annog cyfraniadau gan bob aelod ar faterion allweddol. Mae aelodau y Bwrdd a phwyllgorau yn parhau i gynnal arferion rhith-gyfarfodydd da ac maent yn craffu ac yn darparu her sy'n briodol mewn ffordd gefnogol.

25 Mae IGDC yn parhau i gynnal trefniadau effeithiol i gefnogi llifau sicrwydd. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn parhau i gael adroddiadau sicrwydd arferol ar gyfer y meysydd busnes sydd o dan eu cylch gwaith, gan gynnwys llywodraethu gwybodaeth, gwybodeg, gwasanaethau gwybodaeth, ymchwil ac arloesedd, a'r Gymraeg. Mae aelodau annibynnol yn parhau i eistedd ar fwy nag un pwyllgor, sy'n hwyluso'r dasg o groesgyfeirio gwybodaeth rhwng pwyllgorau. Er enghraifft, mae Cadeirydd y

[3] Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud sylwadau eraill am swyddogaeth IGDC wrth gyflawni rhaglenni mewn adolygiad ar wahân o'r trefniadau digidol yn ddiweddarach yn 2024.

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn eistedd ar y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni ac yn cyfeirio adroddiadau Archwilio Mewnol perthnasol at y pwyllgor hwnnw. Mae adroddiadau ar y prif bwyntiau y pwyllgor i'r Bwrdd yn parhau i fod yn seiliedig ar ddull 'rhybuddio', 'cynghori', a 'sicrhau' sy'n galluogi'r Bwrdd i ganolbwyntio ar faterion allweddol sy'n codi. Fodd bynnag, pan fo pwyllgorau'n 'rhybuddio' y Bwrdd am faterion, mae enghreifftiau pan nad yw'n glir pa gamau y mae'n ofynnol i'r Bwrdd eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater. **(Argymhelliad 2, 2024)**

26 Mae trefniadau da ar waith o hyd gan IGDC i sicrhau bod y Bwrdd a'r pwyllgor yn cael papurau o safon mewn modd amserol. Fel arfer, mae papurau wedi eu strwythuro'n dda, heb fod yn rhy fanwl na thechnegol, ac maent yn cyfeirio'r darllenydd yn glir at risgiau a materion allweddol y mae angen eu hystyried. Mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn darparu gweithdai ysgrifennu adroddiadau ar draws y sefydliad er mwyn gwella cysondeb ac ansawdd yn y safonau adrodd i'r Bwrdd a'r pwyllgor. Mae hefyd yn sicrhau ansawdd pob papur cyn eu cyhoeddi ar y wefan.

## Ymrwymiad y Bwrdd i wrando ar gleifion/defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff

27 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hybu ac yn dangos ymrwymiad i wrando ar gleifion/defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- y Bwrdd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addas i wrando ar amrywiaeth o ddefnyddwyr y gwasanaeth, y cyhoedd, a'r staff.

28 Canfuom fod **trefniadau rhesymol i wrando ar y staff a defnyddwyr y gwasanaeth, ond bod cyfleoedd o hyd i Aelodau y Bwrdd ymgysylltu'n uniongyrchol â chyrff iechyd eraill er mwyn deall heriau digidol gwasanaethau rheng flaen yn well**.

29 Mae gan IGDC ddulliau effeithiol o hyd ar gyfer rhannu gwybodaeth ac ymgysylltu â'i staff ei hun drwy gylchlythyrau, erthyglau 'Mewnwelediadau Bwrdd', cyfarfodydd TenTalks[4] a chynadleddau staff. Mae'r Bwrdd yn cynnal diwrnodau datblygu yn y cnawd mewn gwahanol swyddfeydd IGDC ac mae'n cynnwys eitem 'arddangos tîm' newydd ar ei agenda er mwyn galluogi timau i ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau o'r Bwrdd. Mae IGDC hefyd yn bwrw ymlaen â'i raglen ymgysylltu â'r Cyfarwyddwr Gweithredol gyda'r staff. Fodd bynnag, mae lle i gryfhau'r trefniadau i gipio sylwadau, dysg a chamau gweithredu sy'n codi o'r sesiynau, ac i gryfhau'r defnydd o straeon staff yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

30 Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn parhau i gynnwys eitem am wrando a dysgu ar yr agenda sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gyflawni rhaglenni neu ddarparu gwasanaethau. Fodd bynnag, yng nghyfarfod mis Mai 2024 y Bwrdd, roedd yr

[4] Digwyddiadau cyfathrebu sefydliadol byw 30 munud a gynhelir ar bynciau penodol, er enghraifft, gwrth-dwyll, ymddygiad sefydliadol, a chyflwyniadau aelodau o'r Bwrdd yw TenTalks.

eitem yn cynnwys stori ddigidol yn pwysleisio profiad defnyddiwr meddyg teulu o’r gwasanaeth ceisiadau radioleg electronig. Roedd hyn yn pwysleisio buddion y system o ran cost, effeithlonrwydd a chanlyniadau cleifion ac ysgogodd gwestiynau a thrafodaethau da ymhlith aelodau y Bwrdd. Yn ddiweddar, ymwelodd Cyfarwyddwyr Gweithredol ag Adran Damweiniau ac Achosion Brys i brofi’n uniongyrchol yr heriau digidol a brofir gan weithwyr rheng flaen. Fodd bynnag, nid oedd y cyfle hwn ar gael i Aelodau Annibynnol. Gan fod IGDC yn alluogwr ar gyfer cyrff iechyd eraill, byddai ymweliadau cyfnodol gan Aelodau Annibynnol â gwasanaethau iechyd rheng flaen yn eu helpu i driongli sicrwydd gan reolwyr, i sicrhau sicrwydd annibynnol, ac i gael profiad uniongyrchol o’r materion digidol, gallu ac aeddfedrwydd ar draws GIG Cymru (gweler **Atodiad 2, 2023, Argymhelliad 2**). Mae aelodau y Bwrdd yn parhau i fynychu cyfarfodydd Cymru gyfan gan gynnwys Rhwydwaith Digidol Aelodau Annibynnol Cymru Gyfan, Cadeiryddion Pwyllgor Archwilio Cymru Gyfan, Cadeiryddion y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a’r Comisiwn Deallusrwydd Artiffisial. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd iddynt wella eu gwybodaeth am yr amgylchedd allanol ymhellach.

## Cydlyniant y Bwrdd a’i ymrwymiad i welliant parhaus

31 Gwnaethom ystyried a yw’r Bwrdd yn sefydlog ac yn gydlynol ac yn dangos ymrwymiad i welliant parhaus. Roeddem yn chwilio’n benodol am dystiolaeth o’r hyn a ganlyn:

- Bwrdd sefydlog a chydlynol gyda fframwaith o uwch-arweinwyr sydd â’r capasiti, y sgiliau a’r profiad priodol;
- y Bwrdd a’i bwyllgorau yn adolygu eu heffeithiolrwydd yn rheolaidd ac yn defnyddio’r canfyddiadau i lywio a chefnogi gwelliant parhaus; a
- rhaglen datblygu, cefnogaeth a hyfforddiant Bwrdd perthnasol sydd ar waith.

32 Canfuom fod **y Bwrdd yn gydlynol ac yn dal i fod yn ymrwymedig i welliant parhaus**.

33 Mae IGDC yn dal i fod â Bwrdd cydlynol a sefydlog. Mae gan aelodau y Bwrdd gymysgedd eang o wybodaeth a phrofiad, ond nododd adolygiad sgiliau diweddar brofiad clinigol cyfyngedig ymhlith yr aelodau presennol. Risg gymharol isel y mae hyn yn ei pheri, ac mae’r Cadeirydd, y Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd y Bwrdd yn ystyried dewisiadau er mwyn sicrhau bod mwy o lais clinigol yn cael ei gorffori yn nhrefniadau corfforaethol IGDC. Mae Tîm Gweithredol sefydlog wedi galluogi’r Prif Weithredwr i adolygu, adlinio ac ailgydbwyso rhai portffolios Cyfarwyddwr Gweithredol:

- mae gwasanaethau masnachol a rheolwyr perfformiad wedi eu trosglwyddo oddi wrth y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth i’r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid;
- mae rheoli gwasanaethau wedi ei drosglwyddo oddi wrth y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid i’r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau;

- mae ceisiadau cymunedol wedi eu trosglwyddo oddi wrth y Cyfarwyddwr Gweithredu Gweithredol i'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Digidol ac Iechyd Meddwl;
- swyddogaeth newydd sy'n dod o dan gyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Digidol, ac Iechyd Meddwl yw Dylunio sy'n Canolbwyntio ar y Defnyddwyr;
- trosglwyddwyd gwasanaethau corfforaethol ac ystadau oddi wrth y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid i Ysgrifennydd y Bwrdd.

34 Mae gan IGDC drefniadau cynefino lleol effeithiol ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol. Fodd bynnag, mae angen diweddaru'r deunyddiau cynefino er mwyn adlewyrchu cyflwyniad y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni a chyfrifoldebau y sefydliad o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae rhaglen datblygu y Byrddau a briffio y Bwrdd yn parhau i gwmpasu amrywiaeth o feysydd pwnc, megis parodrwydd i dderbyn risg, fframwaith sicrwydd y bwrdd, rhaglen drawsnewid 'Adeiladu ein Dyfodol'[5], a swyddogaeth IGDC ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn defnyddio'r sesiynau i ystyried ac i drafod strategaethau a chynlluniau corfforaethol wrth iddynt gael eu datblygu.

35 Mae IGDC yn parhau i gefnogi hunanadolygu a gwerthuso ar gyfer y Bwrdd a'r pwyllgorau. Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i adolygu eu heffeithiolrwydd yn flynyddol. Mae'r adroddiad diweddaraf i'r Bwrdd yn dangos bod canfyddiadau yr arolwg yn gadarnhaol ar y cyfan heb unrhyw feysydd arwyddocaol i'w gwella na chamau gweithredu a nodir.

# Systemau sicrwydd corfforaethol

36 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn ar gyfer rheoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

37 Canfuom **fod systemau sicrwydd IGDC yn parhau i fod yn gadarn a'u bod yn gweithredu'n effeithiol, ond bod lle i ddefnyddio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn fwy wrth lunio busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau.**

## Dull corfforaethol o oruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol

38 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar risgiau strategol a chorfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

[5] Bydd rhaglen drawsnewid 'Adeiladu ein Dyfodol' yn cefnogi'r dasg o gyflawni amcanion strategol IGDC drwy greu sawl prosiect ac alinio cyflawniadau hanfodol allweddol o'i chenadaethau strategol 1 i 4 â galluogwyr cenhadaeth 5. Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar alluogi IGDC i gyflwyno ei fodel gweithredu 'dull cynnyrch'.

- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd cyfredol ac sydd ar gael i'r cyhoedd ac ar waith, sy'n dwyn ynghyd yr holl wybodaeth berthnasol am y risgiau i gyflawni blaenoriaethau/amcanion strategol y sefydliad;
- y Bwrdd yn mynd ati adolygu, diweddaru, defnyddio a derbyn cyfrifoldeb am Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er mwyn goruchwylio a chraffu ar risgiau strategol, gan fynd i'r afael â nhw;
- fframwaith rheoli risgiau priodol a chyfredol sydd ar waith, sy'n cael ei danategu gan gyfrifoldebau, swyddogaethau, gweithdrefnau a pholisïau clir;
- y Bwrdd yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar effeithiolrwydd y system rheoli risgiau a'r risgiau corfforaethol.

39 Canfuom **er bod gan IGDC drefniadau effeithiol o hyd ar gyfer rheoli ei risgiau strategol a chorfforaethol, fod lle i wella Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ymhellach**.

40 Mae IGDC yn parhau i gynnal Fframwaith Sicrwydd Bwrdd manwl, cynhwysfawr ac o ansawdd uchel y mae'r Bwrdd yn ei adolygu ddwywaith y flwyddyn (ym mis Mai a mis Tachwedd). Y Bwrdd sy'n berchen ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, ac mae'n ei ddefnyddio i oruchwylio, rheoli, a chraffu ar risgiau strategol. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cipio'r prif risgiau y mae IGDC yn eu hwynebu ar hyn o bryd a'r effaith gysylltiedig ar y sefydliad a phartneriaid iechyd a gofal. Mae hefyd yn adlewyrchu strategaeth hirdymor newydd y sefydliad a chyfrifoldebau ehangach o ran cyflawni rhaglenni. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol yn parhau i gynnal archwiliadau dwfn ar y prif risgiau. Fodd bynnag, mae lle i wella Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ymhellach drwy:

- adrodd yn glir effaith camau gweithredu y mae IGDC yn eu cymryd i liniaru prif risgiau;
- adlewyrchu'r risgiau i gyflawni ei amcanion llesiant, yn awr fod y sefydliad yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a
- defnyddio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r asesiad risg strategol parhaus yn well i lywio rhaglenni gwaith pwyllgorau ac i osod agendâu. **(Argymhelliad 3, 2024)**

41 Yn ystod sesiwn ddatblygu ym mis Ebrill 2024, adolygodd y Bwrdd ei sefyllfa parodrwydd i dderbyn risg ar gyfer ei 10 maes parth risg gweithredol a phum cenhadaeth strategol. Ni arweiniodd yr adolygiad at unrhyw newid i'w feysydd parth risg gweithredol, ond newidiodd ei barodrwydd i dderbyn risg yn ymwneud ag un o'i genadaethau strategol o 'ofalus' i 'gymedrol' er mwyn dangos parodrwydd y Bwrdd i symud yn gyflym gyda chynhyrchion a gwasanaethau newydd.

42 Mae gan IGDC drefniadau rheoli risg corfforaethol effeithiol o hyd a gefnogir gan bolisïau a gweithdrefnau clir. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn mynegi'n glir y risgiau gweithredol sydd â'r sgôr uchaf yn y sefydliad a'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd i'w lliniaru nhw. Mae'r map gwres risgiau yn darparu asesiad 'cipolwg' da o broffil risg IGDC a symudiad risgiau corfforaethol ynddo.

Fodd bynnag, nid yw'r gofrestr risgiau corfforaethol yn nodi'n glir y rheolaethau presennol, sy'n cynyddu'r risg o orgyffwrdd â chamau lliniaru a ffynonellau sicrwydd. **(Argymhelliad 4, 2024)**

43 Mae'r Tîm Gweithredol yn adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn rheolaidd ac mae pob risg yn cael ei neilltuo at y sawl sy'n gyfrifol am y risg a'r pwyllgor sicrwydd perthnasol. Cynhwysir y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar agendâu y Bwrdd a'r pwyllgorau fel mater o drefn, ac mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn darparu trosolwg da o'r risgiau sy'n cael eu huwchgyfeirio a'u diddymu, ac o newidiadau mewn sgôr risg. Mae pwyllgorau hefyd yn parhau i adolygu risgiau sy'n sensitif yn fasnachol ac yn gysylltiedig â seiberddiogelwch mewn sesiynau preifat. Canfu ein harsylwadau ar bwyllgorau waith craffu, cwestiynu a thrafodaeth dda ar risgiau corfforaethol drwy gydol y cyfarfod. Yn ogystal â'r diweddariadau i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, mae'r Bwrdd hefyd yn cael adroddiad blynyddol ar y tueddiadau o ran risgiau corfforaethol. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2023 yn rhoi trosolwg defnyddiol o risgiau nad ydynt wedi eu lliniaru, risgiau sydd wedi eu hwchgyfeirio a'i hisgyfeirio, yn cymharu risgiau â'r flwyddyn ariannol flaenorol, a risgiau gweithredol fesul cenhadaeth strategol.

## Dull corfforaethol o oruchwylio'r perfformiad sefydliadol

44 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar y perfformiad sefydliadol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- fframwaith rheoli perfformiad priodol, cynhwysfawr, a chyfredol sydd ar waith, sy'n cael ei danategu gan swyddogaethau a chyfrifoldebau clir;
- y Bwrdd a'r pwyllgorau yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar y perfformiad sefydliadol.

45 Canfuom fod **gan IGDC drefniadau rheoli perfformiad effeithiol o hyd, gyda rhagor o waith craffu a her ar y perfformiad sefydliadol a gwelliant yn y sicrwydd a ddarperir i'r Bwrdd ar gamau i fynd i'r afael â thanberfformiad**.

46 Mae IGDC yn parhau i gynnal trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn unol â'i Fframwaith Rheoli Perfformiad a gymeradwywyd gan y Bwrdd. Mae'r Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig yn darparu asesiad clir o'r perfformiad o'i gymharu â dangosyddion allweddol[6] ac mae'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod camau priodol yn cael eu cymryd pan fo tanberfformiad neu amrywiad diangen mewn perfformiad.

47 Ar hyn o bryd, mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yn cwblhau adolygiad o drefniadau rheoli perfformiad y sefydliad gyda'r bwriad o fireinio'r Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig ac ymgorffori rheolaeth perfformiad ymhellach

[6] Mae'r Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig yn cynnwys dangosyddion allweddol sy'n ymwneud â chyllid; pobl a datblygiad sefydliadol; caffael strategol; perfformiad gweithredol; llywodraethu clinigol a gwybodaeth; llywodraethu corfforaethol; ansawdd ac archwilio; ac ymgysylltiad strategol.

mewn cyfarwyddiaethau. Bydd angen i'r adolygiad ystyried ansawdd data Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig hefyd yn dilyn adolygiad Archwilio Mewnol interim ym mis Mehefin eleni. Mae Archwilio Mewnol yn bwriadu cynnal profion ychwanegol ar ansawdd data yn rhan o'i adolygiad arfaethedig o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad yn ystod 2024–2025. Dylai hyn ddarparu asesiad defnyddiol o'r cynnydd.

48 Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol yn rhannu cyfrifoldeb cyfunol am berfformiad sefydliadol. Rydym wedi arsylwi dull cydweithredol yng nghyfarfodydd y Bwrdd, lle mae pob Cyfarwyddwr Gweithredol yn gyfrifol am gyflwyno perfformiad eu meysydd cyfrifoldeb. Mae hyn yn cynnwys darparu eglurhad da am danberfformiad a chamau gweithredu a gymerir i ddatrys y materion. Mae cynnydd nodedig hefyd yn lefel yr her a'r gwaith craffu a ddarperir gan aelodau y Bwrdd ar y perfformiad sefydliadol, ac mae cwestiynau da am fesurau perfformiad penodol a rhaglenni a gyflawnir.

## Dull corfforaethol o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau

49 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwylio a chraffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- y Bwrdd yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu ansawdd;
- strwythurau sefydliadol clir a llinellau atebolrwydd sydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol/ansawdd;
- y Bwrdd a'r pwyllgorau perthnasol yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

50 Canfuom fod **IGDC yn parhau i fod â threfniadau sicrhau ansawdd effeithiol, a phrosesau er mwyn galluogi staff i godi pryderon. Mae hefyd yn parhau i ymgorffori ei drefniadau er mwyn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Ansawdd a Gonestrwydd**.

51 Mae gan IGDC drefniadau effeithiol o hyd ar gyfer darparu sicrwydd ar gydymffurfio o ran ansawdd a rheoleiddiol, ac ansawdd a diogelwch clinigol. Hefyd, mae strwythurau sefydliadol clir a llinellau atebolrwydd sydd ar waith ar gyfer y ddau faes.

52 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol yn parhau i gynnal goruchwyliaeth dda o ran ansawdd a chydymffurfiaeth reoleiddiol ac ansawdd a diogelwch clinigol, yn y drefn honno. Mae'r Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig hefyd yn parhau i ddarparu crynodeb da o'r perfformiad sy'n ymwneud â llywodraethu clinigol a gwybodaeth, cydymffurfiaeth ansoddol a rheoleiddiol, a gweithrediadau megis y gwasanaethau TG sydd ar gael a digwyddiadau TG mawr.

53 Mae IGDC yn cryfhau ei drefniadau er mwyn galluogi'r staff i godi pryderon. Mae wedi mabwysiadu Polisi Ymdrin â Phryderon a Chwynion Cymru Gyfan, ac mae

swyddogion yn cyflwyno Adroddiadau Codi Pryderon yn rheolaidd i gyfarfodydd cyhoeddus a phreifat y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, gan ddibynnu ar natur eu cynnwys. Mae gan IGDC 'hyrwyddwr codi pryderon', safle SharePoint pwrpasol i ddarparu canllawiau i'r staff, ac mae'n hunanasesu trefniadau o'u cymharu â Fframwaith Codi Llais Heb Ofn[7]. Mae hefyd yn cynllunio nifer o weithgareddau ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod y broses codi pryderon yn cael ei hyrwyddo'n barhaus.

54 Mae IGDC yn parhau i ymgorffori Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) 2020. Mae wrthi'n cynnal gweithdai Dyletswydd Ansawdd ar draws y sefydliad er mwyn mapio prosesau gweithredol o'u cymharu â'r ddyletswydd, nodi gwelliannau gofynnol, a phenderfynu i ba raddau y mae IGDC yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd. Mae IGDC hefyd wedi mandadu rhaglen e-ddysgu Dyletswydd Ansawdd ar gyfer yr holl staff. Mae ei adroddiadau chwarterol 'Ar Waith bob amser' yn nodi sut mae IGDC yn cymhwyso'r Ddyletswydd Ansawdd ar draws pob un o'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal. Yn ddiweddar mae hefyd wedi paratoi a chyflwyno ei Adroddiad Ansawdd Blynyddol cyntaf i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd i'w gymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024.

## Dull corfforaethol o olrhain argymhellion

55 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio ac o graffu ar systemau at ddibenion olrhain y cynnydd er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion archwilio ac adolygu a chanfyddiadau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- systemau priodol ac effeithiol ar waith er mwyn olrhain ymatebion i argymhellion a chanfyddiadau archwilio ac argymhellion a chanfyddiadau adolygu eraill mewn modd amserol.

56 Canfuom fod **gan IGDC drefniadau effeithiol cyffredinol ar gyfer monitro ac olrhain y cynnydd o'i gymharu ag argymhellion archwilio mewnol ac allanol**.

57 Mae gan IGDC drefniadau effeithiol ar waith o hyd ar gyfer monitro ac olrhain y cynnydd o'i gymharu ag argymhellion archwilio mewnol ac allanol. Mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn adolygu'r olrheiniwr argymhellion pan fo nifer uchel o gamau archwilio ar gyfer monitro gwell. Mae swyddogion yn adrodd y cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd fel mater o drefn, a chanfu ein hadolygiad o'r Cofnod Gweithredu Archwilio fod IGDC yn parhau i wneud cynnydd da o ran cau argymhellion archwilio. Fodd bynnag, nodwn fod argymhellion y mae angen sylw arnynt sy'n parhau i fod yn agored ers ein hasesiadau strwythuredig 2022 a 2023. Gan gydnabod bod ymateb IGDC i'r rhain yn gysylltiedig â datblygu mentrau

[7] Mae Fframwaith Codi Llais Heb Ofn yn nodi cyfrifoldebau sefydliadau y GIG, eu timau a'u byrddau gweithredol, ynghyd â chyfrifoldebau rheolwyr ac aelodau staff unigol (a gwirfoddolwyr) o ran creu diwylliant lle cefnogir 'codi llais', ochr yn ochr ag ymateb amserol a phriodol i unrhyw bryderon a godir, mewn amgylchedd diogel.

corfforaethol yn ehangach ac adrodd eu cynnydd, mae angen gweithredu mwy amserol mewn rhai achosion.

58 Rhoddodd adolygiad dilynol Archwilio Mewnol o weithredu argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig sylweddol sgôr sicrwydd rhesymol. Canfu'r adroddiad fod prosesau ar gyfer diweddaru'r olrheiniwr, monitro ac estyn terfynau amser yr argymhelliad yn glir ac yn briodol. Fodd bynnag, roedd rhai anghywirdebau wrth gofnodi argymhellion a gwybodaeth gysylltiedig megis cofnodi sgoriau blaenoriaeth yn anghywir.

# Dull cynllunio corfforaethol

59 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o lunio strategaethau a chynlluniau corfforaethol ac o oruchwylio'r broses o'u cyflawni.

60 Canfuom fod **IGDC wedi gosod cyfeiriad uchelgeisiol ar gyfer y sefydliad; fodd bynnag, mae angen iddo gryfhau'r modd y mae'n asesu'r effaith a'r gwerth y mae'n eu darparu i'r GIG a gwella gwaith adrodd ar gyflawni cynlluniau mewn rhai meysydd**.

## Dull corfforaethol o lunio strategaethau a chynlluniau

61 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o lunio, goruchwylio, a chraffu ar y broses o ddatblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- gweledigaeth glir a gymeradwywyd gan y Bwrdd, amcanion priodol a strategaeth hirdymor ar waith sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, sydd wedi eu gwreiddio yn iechyd y boblogaeth, ac wedi eu llywio gan ddadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau a risgiau;
- trefniadau corfforaethol priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer datblygu a llunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, a chynlluniau corfforaethol eraill;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig a chynlluniau corfforaethol eraill cyn eu cymeradwyo.

62 Canfuom fod gan **IGDC ddull corfforaethol effeithiol o gynhyrchu strategaethau a chynlluniau, ac yn ddiweddar ei fod wedi cyhoeddi strategaeth hirdymor wedi ei thanategu gan raglen trawsnewidiol allweddol. Fodd bynnag, mae angen iddo ddarparu eglurder pellach ynghylch strategaeth a chyflawni Cynllun Tymor Canolig Integredig, a chwblhau ac ymgorffori ei waith 'cynnig gwerth' i ddangos yr effaith y mae'n ei chael ar y GIG ehangach yng Nghymru**.

63 Mae IGDC wedi amlinellu'n glir ei weledigaeth a'i amcanion strategol yn ei strategaeth hirdymor newydd ar gyfer 2024–2030 a Chynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2024–2027. Mae'r ddau yn diffinio diben IGDC, pum cenhadaeth strategol, ac yn cyflwyno ei bum egwyddor strategol i arwain ac alinio gwelliannau a datblygiadau ehangach. Mae'r strategaeth hirdymor yn glir ac yn alinio â'i ddeddfwriaeth genedlaethol, ei ofynion polisi, a'i Gynllun Tymor Canolig

Integredig ei hun. Mae’r strategaeth yn cydnabod yr heriau sy’n wynebu GIG Cymru a’r cyfleoedd i drawsnewid iechyd a gofal gan ddefnyddio digidol. Mae hefyd yn nodi swyddogaeth partneriaeth IGDC gyda rhanddeiliaid er mwyn gwella ansawdd, diogelwch a chynhyrchiant. Gan fod y strategaeth hirdymor yn lefel uchel ei natur, nid yw’n cael ei chostio; fodd bynnag, mae IGDC yn darparu’r manylion hyn yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig yn lle hynny.

64 Dechreuodd IGDC ddatblygu ei Gynllun Tymor Canolig Integredig ym mis Hydref 2023, gan weithio gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol, y Grŵp Cynllunio a Rheoli Perfformiad, Arweinwyr Portffolio, a’r rhai sy’n gyfrifol am gerrig milltir ac adnoddau. Roedd IGDC hefyd yn cynnal ymgysylltiad parhaus â’i randdeiliaid, gan gynnwys sefydliadau eraill y GIG, er mwyn cytuno ar flaenoriaethau. Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Tymor Canolig Integredig ym mis Mawrth 2024 ac fe’i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlen ofynnol.

65 Mae’r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn parhau i amlinellu blaenoriaethau y sefydliad o amgylch trawsnewid ac arloesi digidol, safoni data cenedlaethol, a’i swyddogaeth fel partner strategol dibynadwy. Mae’r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn dangos yn glir ddealltwriaeth dda o’i risgiau a’i heriau ei hun yn ogystal â risgiau a heriau perthnasol ei randdeiliaid ehangach. Mae hefyd yn cydnabod cyfleoedd digidol, megis symud o ganolfannau data lleol i ganolfannau data cwmwl a rhanbarthol, cyfuno systemau tameidiog, saernïaeth i wasanaethau Cymru gyfan, a symud tuag at un system cofnodi iechyd Cymru gyfan. Mae IGDC yn ystyried blaenoriaethau a chyfyngiadau adnoddau yn briodol yn rhan o gylch datblygu’r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae’r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn parhau i nodi blaenoriaethau, amserlenni ar gyfer cyflawni, canlyniadau a risgiau. Fodd bynnag, mae llawer iawn o flaenoriaethau heb adnoddau sy’n parhau. O ganlyniad, mae’r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn glir ynghylch yr hyn y mae’r sefydliad yn bwriadu ei gyflawni ym mlwyddyn un, ond yn llai felly ar gyfer blynyddoedd dau a thri. Er bod hyn yn helpu gyda chynllunio gwelliant blynyddol, mae angen gwneud y cynllun yn gliriach ac yn fwy manwl yn y tymor canolig. **(Argymhelliad 5, 2024)**

66 Ers mis Mehefin 2024, mae gan IGDC gyfrifoldeb statudol i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf). Nid yw’r strategaeth hirdymor yn cyfeirio at y Ddeddf, yr egwyddor datblygu cynaliadwy, nac amcanion llesiant IGDC. Fodd bynnag, mae’r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn mapio amcanion y Ddeddf i swyddogaethau galluogi y sefydliad o dan genhadaeth strategol pump, sef ‘bod yn bartner strategol dibynadwy ac yn sefydliad o ansawdd uchel, sy’n gynhwysol ac yn uchelgeisiol’. Gan fod IGDC yn ymgorffori’r Ddeddf, bydd angen iddo ystyried sut y gall gymhwyso amcanion y Ddeddf ar draws ei genadaethau strategol eraill a nodi’n gliriach sut y bydd yn gweithio yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy.

67 Y llynedd, gwnaethom adrodd bod IGDC yn datblygu model gweithredu newydd sy’n canolbwyntio ar gymorth i gyflawni ei amcanion strategol a’i flaenoriaethau Cynllun Tymor Canolig Integredig. Dechreuodd ddatblygu ei waith ‘cynnig gwerth’ hefyd er mwyn dangos effaith buddsoddiadau digidol i swyddogaeth GIG Cymru ac IGDC fel ‘partner digidol dibynadwy’. Fodd bynnag, hyd yma, araf a fu’r cynnydd ar

y ddwy ffrwd waith oherwydd heriau o ran adnoddau, capasiti a chyflawni rhaglenni. Mae'r gwaith hwn bellach wedi ei gorffori yn rhaglen trawsnewid 'Adeiladu ein Dyfodol' IGDC (gweler **Atodiad 2, 2023, Argymhelliad 3**). Arweinir y rhaglen gan y Cyfarwyddwr Cyllid, ac rydym yn deall bod gwaith cynllunio cychwynnol ar y gweill. Yn rhan o hyn, mae'n ymgysylltu â'i randdeiliaid mewnol ac yn creu map trywydd tuag at gyflawni'r rhaglen.

68 Mae'r broses ar gyfer datblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol ehangach, megis y Strategaeth Gofal Sylfaenol, y Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth, y Strategaeth Gwybodeg Glinigol a Newid Busnes, a'r Strategaeth Gwybodaeth a Dadansoddeg, yn effeithiol.

## Dull corfforaethol o oruchwylio'r broses o gyflawni strategaethau a chynlluniau

69 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio ac o graffu ar y broses o weithredu a chyflawni cynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- cynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn cynnwys blaenoriaethau/amcanion strategol clir a cherrig milltir penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amser-gyfyngedig[8], targedau a chanlyniadau sy'n cynorthwyo gwaith monitro ac adrodd;
- y Bwrdd yn monitro gweithrediad a chyflawniad cynlluniau corfforaethol yn briodol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

70 Canfuom **er bod gan IGDC drefniadau effeithiol o hyd ar gyfer goruchwylio'r broses o gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, bydd angen iddo ystyried sut mae'n mesur effaith cyflawni ei strategaeth hirdymor. Mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r broses o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol eraill wedi eu cryfhau, ond mae cyfleoedd o hyd i'w gwella nhw ymhellach**.

71 Canfu ein hadolygiad o'r strategaeth hirdymor ei bod yn uchelgeisiol. Er ei bod yn gadarnhaol, gallai'r heriau sy'n gysylltiedig â systemau etifeddiaeth a seilwaith, pwysau ariannu ar draws pob sefydliad, ynghyd â'r gallu digidol yng Nghymru y mae ei argaeledd yn gyfyngedig gyfaddawdu rhychwant y cynnydd. Felly, bydd angen i'r sefydliad roi trefniadau priodol ar waith er mwyn asesu a myfyrio ar rychwant y cynnydd o'i gymharu â'i uchelgais strategol. **(Argymhelliad 6, 2024)**

72 Mae cyfrifoldeb Cyfarwyddwr Gweithredol clir am y Cynllun Tymor Canolig Integredig, y Strategaeth Gofal Sylfaenol, y Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth, y Strategaeth Gwybodeg Glinigol a Newid Busnes, a'r Strategaeth Gwybodaeth a Dadansoddeg ac mae'n alinio ag amcanion strategol y sefydliad. Maent yn cynnwys amcanion clir a danategir gan flaenoriaethau lefel uchel. Mae

[8] Penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amser-gyfyngedig—defnyddir yr acronym SMART ar gyfer hyn yn y Saesneg.

trefniadau llywodraethu, cyflawni ac adrodd priodol i oruchwylio'r broses o'u cyflawni.

73 Cefnogir strategaethau a chynlluniau corfforaethol ehangach, megis y Strategaeth Gwybodeg Glinigol a Newid Busnes, a'r Strategaeth Gwybodaeth a Dadansoddeg gan gynlluniau busnes sy'n cynnwys camau gweithredu clir, swyddogion cyfrifol, a chynnydd. Fodd bynnag, nid yw'r lefel hon o wybodaeth yn parhau i fod ar gael ar gyfer rhai strategaethau a chynlluniau corfforaethol eraill, megis y Strategaeth Gofal Sylfaenol a'r Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth (gweler **Atodiad 2, 2022, Argymhelliad 1**).

74 Mae gan IGDC drefniadau effeithiol o hyd ar gyfer goruchwylio a chraffu ar y broses o weithredu a chyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cysylltu â chynllun busnes clir sy'n cynnwys dyddiadau targed a cherrig milltir. Mae Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig IGDC hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd i'r Bwrdd. Mae 'cynllun ar dudalen' yr adroddiad yn rhoi trosolwg defnyddiol o'r cynnydd o'i gymharu â phortffolio cyflawni pob rhaglen sy'n alinio â phedair o bum cenhadaeth strategol IGDC. Cefnogir hyn hefyd gan ddiweddariad naratif manylach sy'n rhoi sylwadau ar gyflawni rhaglenni. Rydym hefyd yn nodi bod y Bwrdd yn parhau i gael adroddiad cynnydd chwemisol y Cynllun Tymor Canolig Integredig ym mis Tachwedd.

75 Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i wella ansawdd yr adroddiadau sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd. Er bod y Diweddariad Cynhwysiant Digidol i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2024, a diweddariadau y Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a'r Strategaeth Gyfathrebu i'r Bwrdd ym mis Mai 2024 yn nodi'r cynnydd, nid ydynt yn mynegi'n glir pan fo'r hyn a gyflawnir oddi ar y trywydd iawn, y camau lliniaru, a'r amserlenni cyflawni diwygiedig (gweler **Atodiad 2, 2023, Argymhelliad 4**).

# Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

76 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol.

77 Canfuom fod gan **IGDC ddull effeithiol yn gyffredinol o gyflawni gwaith cynllunio, monitro ac adrodd ariannol. Fodd bynnag, mae risgiau o hyd o amgylch cynaliadwyedd model ariannu y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol a gorddibyniaeth ar arbedion afreolaidd**.

## Amcanion ariannol

78 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o gyflawni ei amcanion ariannol allweddol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- y sefydliad yn cyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2023–2024, a'r cyfnod treigl o dair blynedd rhwng 2021–2022 a 2023–2024; a
- y sefydliad ar y trywydd iawn i gyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau yn 2024–2025.

79 Canfuom fod **IGDC wedi cyflawni ei amcanion ariannol ar gyfer 2023–2024 a'i fod yn rhagweld y bydd yn mantoli'r cyfrifon ar gyfer 2024–2025**.

80 Cyflawnodd IGDC ei amcanion ariannol i fantoli'r cyfrifon ar gyfer gwariant refeniw a chyfalaf yn 2023–2024. Yn yr adroddiad cyllid diweddaraf a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Mai 2024, adrodda IGDC danwariant refeniw a chyfalaf o £0.096 miliwn a £0.242 miliwn yn y drefn honno ar gyfer y cyfnod hyd at 30 Ebrill 2024. Ar hyn o bryd, mae'n rhagweld sefyllfa lle bydd yn mantoli'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn.

## Dull corfforaethol o gynllunio ariannol

81 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwylio a chraffu ar gynllunio ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- trefniadau cynllunio ariannol corfforaethol clir a chadarn sydd ar waith;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar gynlluniau ariannol cyn eu cymeradwyo;
- arbedion cynaliadwy, realistig, ac sydd wedi eu costio'n gywir a chynlluniau gwella costau ar waith sydd wedi eu cynllunio i gefnogi cynaliadwyedd ariannol a thrawsnewid y gwasanaeth;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar gynlluniau gwellau costau ac arbedion cyn eu cymeradwyo.

82 Canfuom fod gan **IGDC ddull cynllunio ariannol effeithiol o hyd a'i fod yn glir ynghylch ei risgiau ariannol. Fodd bynnag, mae'r risgiau o ran cynaliadwyedd model y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol yn parhau, ac mae'n parhau i ddibynnu'n ormodol ar swyddi gwag i gyflawni arbedion**.

83 Mae IGDC yn gweithredu mewn amgylchedd ariannol sy'n fwyfwy heriol sy'n arwain at risgiau ariannol cynyddol, a chyfyngiadau ariannu ochr yn ochr â strategaeth sefydliadol uchelgeisiol. Yn 2023–2024, profodd IGDC gynnydd mewn cyllid craidd ond, ar yr un pryd, leihad mewn rhai meysydd nad ydynt yn rhai craidd, gan gynnwys cyllid ymateb COVID-19 a chyllid y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol.

84 Yn rhan o broses cynllunio ariannol 2024–2025, nododd IGDC risgiau ariannol na ellir eu hosgoi, gan gynnwys twf gwasanaeth, chwyddiant digidol, cynnal cynhyrchion digidol allweddol, costau ynni, a gwelliannau seiberddiogelwch. Nododd hefyd gostau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â dewisiadau datblygu cynnyrch a allai rwystro cynnydd, megis y trawsnewidid i'r cwmwl.

85 Cymeradwyodd y Bwrdd gynllun ariannol IGDC ym mis Mawrth 2024 yn rhan o broses gymeradwyo y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r cynllun yn tybio cyllid o £169.6 miliwn, ac o hyn:

- mae £131.9 miliwn yn ymwneud â chyllid gan Lywodraeth Cymru, Cytundeb Lefel Gwasanaethau y GIG, Trwyddedu Digidol Cymru Gyfan, ac incwm amrywiol arall;
- £7.4 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei ymateb i COVID-19; a
- £30.3 miliwn o gyllid yn rhan o'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol.

86 Mae'r materion ynghylch cymhlethdod model ariannu y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol yn parhau. Roedd IGDC a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos i gytuno ar fodel ariannu cenedlaethol a lleol mwy cynaliadwy y llynedd. Fodd bynnag, mae'r cynnydd wedi stopio oherwydd y pwyslais ar heriau ariannol yn ystod y flwyddyn ar draws GIG Cymru. Mae natur afreolaidd y cyllid yn dal i atal gallu IGDC i gynllunio gyda sicrwydd ac i recriwtio staff sydd â sgiliau ac arbenigedd priodol ar gontractau tymor penodol byr 12 mis. Yn y pen draw, mae'r sefyllfa ariannu yn cyflwyno risg i gyflawni rhaglenni y mae'r sefydliad yn ceisio ei lliniaru drwy ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (gweler **Atodiad 2022 Argymhelliad 2a**).

87 Mae IGDC yn ariannu elfennau o waith sydd 'mewn perygl'. Er enghraifft, mae wedi gwario £0.86 miliwn ar yr achos datblygu i ddisodli System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru â 'Cysylltu Gofal'. Mae hefyd yn rhagweld gofyniad cyllid ychwanegol i gefnogi System Gwybodaeth Gofal Dwys Cymru yn dilyn adolygiad clinigol annibynnol arfaethedig. Er bod y gwerthoedd ariannu sydd 'mewn perygl' yn fach ar hyn o bryd, mae hyn ynghyd â'r blaenoriaethau mwyaf arwyddocaol nad oes adnoddau digonol ar eu cyfer (gweler **paragraff 65**) yn dwysáu risgiau cyflawni i'r sefydliad ymhellach ac yn eu pwysleisio nhw.

88 Mae IGDC yn parhau i fod â dull rhesymol effeithiol o nodi arbedion[9]. Fodd bynnag, mae cyflawni'r arbedion yn dal i beri risgiau i gynaliadwyedd ariannol y sefydliad yn y dyfodol. Mae'r Cynllun Ariannol yn mynegi targed arbedion o £1.5 miliwn. Mae IGDC yn parhau i ddibynnu'n fawr ar swyddi gwag (£0.853 miliwn) i gyflawni ei darged arbedion cyffredinol. Yng nghyfarfod diweddaraf y Bwrdd ym mis Mai 2024, adroddodd IGDC ei fod wedi gor-gyflawni arbedion swyddi gwag gwerth cyfanswm o £0.263 miliwn ar gyfer y cyfnod hyd at 30 Ebrill 2024[10]. Mae hyn yn dal i fod yn risg pe byddai'r sefydliad yn recriwtio i'r swyddi gwag hyn (gweler **Atodiad 2, 2022, Argymhelliad 2b** a **2023, Argymhelliad 5**).

89 Ym **mharagraffau 67** a **84**, rydym yn gwneud sylwadau ar gynnydd IGDC wrth sefydlu ei fodel gweithredu dull cynnyrch newydd a'r risgiau fforddiadwyedd o amgylch mabwysiadu seilwaith 'cwmwl'. Rhagwelir y bydd y ddwy ffrwd waith

[9] Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud sylwadau eraill ar ddull IGDC o nodi, cyflawni a monitro arbedion ariannol mewn darn o waith ar wahân y byddwn yn ei adrodd yn 2024.

[10] £0.121 miliwn oedd y targed arbedion swyddi gwag ar gyfer y cyfnod hyd at 30 Ebrill 2024 a £0.384 miliwn oedd yr arbedion gwirioneddol a gyflawnwyd.

allweddol yn cyflawni perfformiad gwell ac yn creu gwerth system ac effeithlonrwydd gweithredol. Mae IGDC yn sefydlu ffrwd waith ‘Finding more Value’ yn rhan o’i raglen drawsnewid ‘Adeiladu ein Dyfodol’. Mae hyn hefyd yn bwriadu nodi a chyflawni ar raglenni effeithlonrwydd strategol ar draws y sefydliad a dylai helpu i leihau’r ddibyniaeth ar arbedion afreolaidd. Yn rhan o’r broses hon, dylai IGDC fynegi nodau arbedion ariannol diriaethol. **(Argymhelliad 7, 2024)**

## Dull corfforaethol o reoli ariannol

90 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol. Roeddem yn chwilio’n benodol am dystiolaeth o’r hyn a ganlyn:

- rheolaethau effeithiol ar waith sy’n sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Cadw a Dirprwyo;
- y Bwrdd yn cynnal goruchwyliaeth briodol o drefniadau a pherfformiad sy’n ymwneud â gweithredoedd tendr sengl, taliadau arbennig, colledion, a gwrth-dwyll;
- trefniadau rheoli ariannol effeithiol ar waith sy’n galluogi’r Bwrdd i ddeall sbardunau cost a sut maent yn effeithio ar y broses o gyflawni amcanion strategol; ac
- a gafodd datganiadau ariannol y sefydliad ar gyfer 2023–2024 eu cyflwyno’n brydlon, heb gynnwys camddatganiadau perthnasol, ac a gawsant farn archwilio lân.

91 Canfuom fod **gan IGDC drefniadau effeithiol o hyd ar y cyfan ar gyfer goruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol**.

92 Mae gan IGDC ddull rhesymol effeithiol o hyd ar gyfer goruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol. Rhoddodd adolygiad Archwilio Mewnol ar gynaliadwyedd darparu gwasanaethau ac ariannol sgôr sicrwydd rhesymol. Mae’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn parhau i gael adroddiadau o ansawdd da ar orchmynion prynu gwerth uchel, gweithgareddau caffael, y cynnydd gwrth-dwyll lleol, a chydymffurfiaeth â Chynlluniau Dirprwyo a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. Mae’n ymddangos bod pob un ohonynt yn cael eu rheoli’n briodol neu’n cyflawni yn ôl y disgwyl. Canfuom hefyd dystiolaeth o’r wybodaeth ddiweddaraf am gyfrifeg dechnegol a gyflwynwyd i’r pwyllgor. Rydym yn parhau i nodi gwaith craffu priodol ac mae’r wybodaeth a gyflwynir yn cael ei goruchwylio’n briodol.

93 Mae gan IGDC ddealltwriaeth dda o hyd o’i sbardunau cost. Mae’r Cynllun Ariannol yn amlinellu cyfleoedd a risgiau ariannol, megis mabwysiadu cwmwl, y ‘model gweithredu cynnyrch’ newydd, y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol a phwysau ariannol (gweler **paragraffau 83 i 89**). Er y bu cynnydd bach i gostau Cytundeb Lefel Gwasanaeth, mae cyrff iechyd wedi derbyn y rhain yn fras. Fodd bynnag, bydd angen o hyd i IGDC fonitro ei amgylchedd mewnol ac allanol yn barhaus pe byddai risgiau ariannol sylweddol sy’n wynebu GIG Cymru yn dod yn ffaith.

94 Paratowyd datganiadau ariannol IGDC i safon dda ac fe'u cyflwynwyd i gael eu harchwilio ar 3 Mai 2024. Cywirodd yr holl gamddatganiadau a nodwyd a oedd uwchben y trothwy dibwys, ac ystyriodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd y datganiadau ariannol diwygiedig ar 9 Gorffennaf 2024 a chymeradwyodd y Bwrdd nhw ar yr un diwrnod. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol ar 12 Gorffennaf 2024.

## Goruchwyliaeth gan y Bwrdd ar y perfformiad ariannol

95 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn goruchwylio ac yn craffu ar y perfformiad ariannol yn briodol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- y Bwrdd yn derbyn adroddiadau cywir, tryloyw ac amserol ar y perfformiad ariannol, yn ogystal â'r heriau ariannol allweddol, risgiau, a chamau lliniaru;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar asesiadau parhaus sefyllfa ariannol y sefydliad.

96 Canfuom fod **adroddiadau ariannol y Bwrdd yn darparu digon o wybodaeth i alluogi gwaith craffu a goruchwylio priodol a gefnogir gan archwiliadau dwfn gan y pwyllgor o'r risgiau ariannol**.

97 Mae swyddogion yn parhau i adrodd y perfformiad ariannol yn uniongyrchol i'r Bwrdd. Mae adroddiadau cyllid yn darparu digon o wybodaeth i alluogi gwaith craffu a herio, gan gynnwys sylwebaeth fanwl ar gyflawni cynlluniau arbed. Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd archwiliad dwfn o'r cynaliadwyedd ariannol ym mis Hydref 2023, ac mae'r papur yn nodi trosolwg clir o'r risgiau ariannol allweddol. Arweiniodd hyn at drafodaeth dda a rhoddodd sicrwydd ychwanegol i'r Bwrdd ar heriau ariannol.

98 Mae aelodau y Bwrdd yn parhau i gydnabod y sefyllfa ariannol heriol y mae IGDC yn ei hwynebu. Mae ein harsylwadau o gyfarfodydd y Bwrdd yn parhau i ganfod lefelau da o waith craffu ar berfformiad ariannol a phroses cyflawni arbedion IGDC. Mae hyder y bydd IGDC yn cyflawni cydbwysedd ariannol eleni. Fodd bynnag, os bydd risgiau ariannol yn cynyddu, efallai y bydd yn dymuno ystyried cyflwyno eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd i drafod perfformiad ariannol a risgiau yn amlach.

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

**Mae Arddangosiad 2** isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Cyfyngir ein tystiolaeth i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Arsylwadau | Gwnaethom arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd;<br>• Y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol;<br>• Y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni. |
| Dogfennau | Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cylch Gorchwyl y Bwrdd a'r Pwyllgor, rhaglenni gwaith, agendâu, papurau, a chofnodion;<br>• dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau Buddiant, a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch;<br>• strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig;<br>• dogfennau rheoli risgiau allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol;<br>• adroddiadau allweddol sy'n ymwneud â pherfformiad a chyllid sefydliadol;<br>• Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol;<br>• polisïau a gweithdrefnau perthnasol; ac<br>• adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Gwrth-dwyll Lleol, a chyrff allanol perthnasol eraill. |

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| Cyfweliadau | Gwnaethom gynnal cyfweliadau â’r Uwch-swyddogion a’r Aelodau Annibynnol canlynol:<br>• Cadeirydd y Bwrdd;<br>• Y Prif Weithredwr;<br>• Ysgrifennydd y Bwrdd/Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol;<br>• Y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol;<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth;<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid;<br>• Aelod Annibynnol/Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd;<br>• Aelod Annibynnol/Cadeirydd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni; ac<br>• Aelod Annibynnol/Is-gadeirydd IGDC. |

# Atodiad 2

## Y cynnydd a wnaed o'i gymharu ag argymhellion y blynyddoedd blaenorol

**Mae Arddangosiad 3** isod yn nodi'r cynnydd a wnaed gan IGDC wrth weithredu argymhellion o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol.

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **2022 Argymhelliad 1**<br>Er bod Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022–2025 a'r Cynllun Busnes cysylltiedig yn cael eu cefnogi gan ddyddiadau targed a cherrig milltir clir, nid yw'r wybodaeth hon ar gael ar gyfer cynlluniau a strategaethau corfforaethol eraill. Felly, dylai IGDC sicrhau bod yr holl gynlluniau a strategaethau corfforaethol yn cael eu tanategu gan gynlluniau cyflawni manwl sy'n cynnwys dyddiadau targed a cherrig milltir er mwyn hwyluso gwaith monitro cynnydd effeithiol a gwneud yn siŵr bod sicrwydd a gwaith craffu priodol ar lefel y Bwrdd. | Cefnogir strategaethau a chynlluniau corfforaethol ehangach gan gynlluniau busnes sy'n cynnwys camau gweithredu clir, swyddogion cyfrifol, a chynnydd. Fodd bynnag, nid oedd y lefel hon o wybodaeth ar gael ar gyfer rhai strategaethau a chynlluniau corfforaethol eraill.<br>**Ar y gweill ac yn cael ei gwblhau'n hwyr** |

| Argymhelliad | Disgrifiad o’r cynnydd |
|---|---|
| **2022 Argymhelliad 2**<br>Mae angen i drefniadau ar gyfer rheoli cyllid tymor canolig i hirdymor a risgiau i arbed fod yn fwy gweladwy ar lefel y Bwrdd. Felly, dylai IGDC, roi trefniadau ar waith i wneud yr hyn a ganlyn:<br>a. dangos, drwy ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd, ei fod yn mynd ati i reoli’r risgiau tymor canolig a hirdymor sy’n gysylltiedig â chynaliadwyedd model y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol; a<br>b. rhoi mwy o sicrwydd i’r Bwrdd ar ddatblygu a chyflawni arbedion rheolaidd yn y tymor canolig i’r hirdymor er mwyn cryfhau cynaliadwyedd ariannol y sefydliad yn y dyfodol. | a. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn parhau i gynnwys y model ariannu cynaliadwy fel bwlch rheoli allweddol ac mae’n mynegi rhai camau rheoli a lliniaru lefel uchel. Yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd diweddaraf ym mis Gorffennaf 2024, cynigiwyd bod y risg gorfforaethol o amgylch cyllid cynaliadwy yn cael ei rhannu, er mwyn galluogi’r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni i ganolbwyntio ar gynaliadwyedd ariannu ar gyfer rhaglenni yn ystod y flwyddyn, a’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd i ganolbwyntio ar y dull ariannu cynaliadwy hirdymor.<br>**Cwblhawyd**<br>b. Mae IGDC yn bwriadu sefydlu ffrwd waith ‘Finding more Value’ yn rhan o’i raglen drawsnewid ‘Adeiladu ein Dyfodol’. Mae hyn hefyd yn bwriadu nodi a chyflawni ar raglenni effeithlonrwydd strategol ar draws y sefydliad a bydd yn helpu i leihau’r ddibyniaeth ar arbedion afreolaidd.<br>**Disodlwyd yr argymhelliad hwn gan argymhelliad 7 a wnaed yn rhan o adolygiad Asesu Strwythuredig eleni.** |
| **2022 Argymhelliad 3**<br>Ar wahân i adroddiadau Archwilio Mewnol yn y maes hwn, nid yw’r Bwrdd na’i bwyllgorau yn cael sicrwydd arall ynghylch rheoli asedau ffisegol IGDC. Felly, dylai IGDC ddarparu adroddiadau sicrwydd i’r Bwrdd neu’r pwyllgor perthnasol o bryd i’w gilydd fod ei asedau ffisegol (dros werth penodol a/neu sydd mewn perygl o gamddefnydd) yn cael eu rheoli’n dda. | Mae IGDC wedi datblygu adroddiad prif bwyntiau ar reoli asedau ffisegol, sy’n rhoi sicrwydd i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ynghylch rheoli ei asedau ffisegol defnyddwyr terfynol a gwasanaethau craidd.<br>**Cwblhawyd** |

| Argymhelliad | Disgrifiad o’r cynnydd |
| --- | --- |
| **2023 Argymhelliad 1**<br>Mae Cadeirydd y Bwrdd yn bwriadu cadeirio’r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni newydd. Er bod hyn yn ddatblygiad cadarnhaol, o ystyried camau cynnar a chylch gwaith y Pwyllgor, dylai’r trefniad hwn fod yn gyfyngedig o ran amser er mwyn rhyddhau capasiti y Cadeirydd a chefnogi llifoedd sicrwydd annibynnol ac effeithiol. Dylai IGDC geisio penodi cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor o’r garfan ehangach o Aelodau Annibynnol. | Cadeirydd y Bwrdd oedd cadeirydd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni, ond ers hynny mae wedi ildio’r cyfrifoldeb i Aelod Annibynnol arall. Mae’n dal i fod yn aelod o’r pwyllgor.<br>**Cwblhawyd** |
| **2023 Argymhelliad 2**<br>Mae cyfarfodydd Bwrdd yn dal i gynnwys eitem wrando a dysgu ar yr agenda, sy’n rhoi rhywfaint o fewnwelediadau i aelodau y Bwrdd ar sut mae digidol yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau clinigol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i gryfhau’r trefniadau hyn ymhellach. Felly, dylai IGDC ymgysylltu â chyrff iechyd eraill neu Llais Cymru, er mwyn archwilio dewisiadau fel y gall aelodau y Bwrdd wrando’n uniongyrchol ar ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau clinigol. | Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn parhau i gynnwys eitem am wrando a dysgu ar yr agenda sydd, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wedi canolbwyntio’n bennaf ar gyflawni rhaglenni neu ddarparu gwasanaethau. Fodd bynnag, yng nghyfarfod mis Mai 2024 y Bwrdd, roedd yr eitem gwrando a dysgu yn cynnwys stori ddigidol yn pwysleisio profiad defnyddiwr meddyg teulu o’r gwasanaeth ceisiadau radioleg electronig.<br>Yn ddiweddar, ymwelodd rhai Cyfarwyddwyr Gweithredol ag Adran Damweiniau ac Achosion Brys ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn eu galluogi nhw i brofi’n uniongyrchol yr heriau digidol a brofir gan weithwyr rheng flaen. Felly, dylai IGDC ystyried sut y gall gynyddu a manteisio gymaint â phosibl ar gyfleoedd i holl aelodau y Bwrdd wrando yn uniongyrchol ar ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau clinigol mewn cyrff iechyd eraill er mwyn helpu i lunio ei eitem gwrando a dysgu ar y Bwrdd.<br>**Ar y gweill ac yn cael ei gwblhau’n hwyr** |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **2023 Argymhelliad 3**<br>Mae IGDC yn wynebu heriau o ran adnoddau i gyflawni ei flaenoriaethau Cynllun Tymor Canolig Integredig, ac efallai y bydd cwmpas ei waith trawsnewidiol arfaethedig yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar adeg pan fo cyfyngiadau ariannol sylweddol ar draws y GIG yng Nghymru. Yng ngoleuni'r heriau hyn, dylai IGDC wneud yr hyn a ganlyn:<br>a. datblygu ei waith 'cynnig gwerth' yn gyflym er mwyn dangos effaith digidol ar draws GIG Cymru; a<br>b. datblygu cynlluniau cyn gynted â phosibl sy'n ystyried ei flaenoriaethau mewnol ei hun a blaenoriaethau rhanddeiliaid yn ofalus a'r hyn y gall ei gyflawni o fewn ei amlen adnoddau. | Mae'r cynnydd ar y model gweithredu newydd sy'n canolbwyntio ar gynnyrch a ffrydiau gwaith 'cynnig gwerth' wedi bod yn araf oherwydd heriau amrywiol o ran adnoddau, capasiti a chyflawni rhaglenni, ochr yn ochr ag IGDC yn etifeddu rhaglenni digidol problemus. Mae IGDC bellach yn corffori'r gwaith hwn yn ei raglen drawsnewid 'Adeiladu ein Dyfodol'.<br>**Ar y gweill, ond nid oes rhaid ei gwblhau tan fis Medi 2024** |

| Argymhelliad | Disgrifiad o’r cynnydd |
|---|---|
| **2023 Argymhelliad 4**<br>Er bod rhai strategaethau a chynlluniau corfforaethol wedi eu tanategu gan gynlluniau busnes/cyflawni clir, nid yw hyn yn wir am bob un ohonynt. Yn ogystal â hynny, mae lle i wella ansawdd ac amlder yr adroddiadau sy’n rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am y strategaeth a gyflwynir i’r Bwrdd. Felly, dylai IGDC:<br>a. sicrhau bod yr holl gynlluniau a strategaethau corfforaethol yn cael eu tanategu gan gynlluniau busnes/cyflawni manwl sy’n cynnwys dyddiadau targed a cherrig milltir er mwyn hwyluso gwaith monitro cynnydd effeithiol a gwneud yn siŵr bod sicrwydd a gwaith craffu priodol ar lefel y Bwrdd; a<br>b. gwella ansawdd adroddiadau sy’n rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am y strategaeth i’r Bwrdd a chynyddu amlder goruchwyliaeth er mwyn rhoi sicrwydd i’r Bwrdd bod strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn cyflawni’r effaith a’r buddion a ddymunir. | Yn gyffredinol, cefnogir strategaethau a chynlluniau corfforaethol ehangach gan gynlluniau busnes sy’n cynnwys camau gweithredu clir, swyddogion cyfrifol, a chynnydd. Fodd bynnag, nid yw’r lefel hon o wybodaeth ar gael ar gyfer rhai strategaethau a chynlluniau corfforaethol eraill.<br>Mae cyfleoedd i wella ansawdd yr adroddiadau sy’n rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Bwrdd. Mae’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Bwrdd ym mis Mai 2024 yn nodi’r cynnydd a’i effaith, ond nid ydynt yn mynegi yn glir ymhle y mae’r cyflawniadau oddi ar y trywydd iawn, camau lliniaru nac amserlenni cyflawni diwygiedig.<br>**Ar y gweill ac yn cael ei gwblhau’n hwyr** |

| Argymhelliad | Disgrifiad o’r cynnydd |
| --- | --- |
| **2023 Argymhelliad 5**<br>Er bod IGDC wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth fynd i’r afael â’r cydbwysedd rhwng arbedion rheolaidd ac arbedion afreolaidd, mae’n dal i roi gormod o ddibyniaeth ar arbedion swyddi gwag i gyflawni ei darged arbedion cyffredinol. Mae hyn yn parhau i fod yn risg pe byddai’r sefydliad yn recriwtio i’r swyddi gwag, yn enwedig o ystyried y sefyllfaoedd diffyg a ragwelir ar gyfer 2024–2025 a 2025–2026. Felly, dylai IGDC roi mwy o sicrwydd i’r Bwrdd ar ddatblygu a chyflawni arbedion rheolaidd yn y tymor canolig i’r hirdymor er mwyn cryfhau cynaliadwyedd ariannol y sefydliad yn y dyfodol. | Mae’r Cynllun Ariannol yn mynegi targed arbedion o £1.5 miliwn. Mae IGDC yn parhau i ddibynnu’n fawr ar swyddi gwag (£0.853 miliwn) i gyflawni ei darged arbedion cyffredinol. Fel cyfarfod diweddaraf y Bwrdd ym mis Mai 2024, adroddodd IGDC ei fod wedi gor-gyflawni arbedion swyddi gwag gwerth cyfanswm o £0.263 miliwn ar gyfer y cyfnod hyd at 30 Ebrill 2024.<br>**Disodlwyd yr argymhelliad hwn gan argymhelliad 7 a wnaed yn rhan o adolygiad Asesu Strwythuredig eleni.** |

# Atodiad 3

## Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio

**Arddangosyn 4: Ymateb IGDC i’n hargymhellion archwilio**

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y rheolwyr** Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i’r argymhellion | **Dyddiad cwblhau** Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Cryfhau Adroddiad Trosolwg y Rhaglen y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni drwy sicrhau ei fod yn darparu asesiad cliriach o’r risgiau sy’n wynebu partneriaid a rhanddeiliaid eraill pan fo heriau sylweddol o ran cyflawni rhaglenni. | Bydd Byrddau Rhaglen yn gofyn am Adroddiadau ar y Prif Bwyntiau gan yr holl bartneriaid cyflawni—bydd y statws Coch Melyn Gwyrdd yr adroddir arno ac unrhyw risgiau sylweddol yn cael eu cynnwys yn y Rhaglen<br>Adroddiad Trosolwg. | Mawrth 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth |
| A2 | Sicrhau bod adroddiadau ar y prif bwyntiau y pwyllgor i’r Bwrdd yn rhoi naratif cliriach ar y camau sy’n ofynnol gan y Bwrdd pan mae wedi cael gwybod am faterion. | Rhaid i’r camau gweithredu sydd angen sylw’r Bwrdd fod yn eglur yn adroddiadau y Pwyllgor ar y prif bwyntiau yn y dyfodol o dan adran Rhybudd yr adroddiad. | 28 Tachwedd 2024 | Y Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y rheolwyr**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A3 | Cryfhau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd drwy:<br>• adrodd yn glir effaith camau gweithredu y mae IGDC yn eu cymryd i liniaru prif risgiau;<br>• adlewyrchu'r risgiau i gyflawni ei amcanion llesiant, yn awr fod y sefydliad yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a<br>• defnyddio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r asesiad risg strategol parhaus yn well i lywio rhaglenni gwaith pwyllgorau ac i osod agendâu. | i. Rhaid i'r wybodaeth ddiweddaraf am Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i'r Bwrdd yn y dyfodol gynnwys asesiad o'r effaith y mae'r camau i liniaru'r prif risgiau yn ei chael wrth fynd i'r afael â'r risg a'i lliniaru.<br>ii. Diweddaru templed Adroddiad Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er mwyn corffori risgiau i gyflawni ei amcanion llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).<br>iii. Rhaid i gyfarfodydd gosod agenda gynnwys ystyried Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er mwyn llywio eitemau agenda pwyllgor yn y dyfodol. | i. 28 Tachwedd 2024<br>ii. 28 Tachwedd 2024<br>iii. Hydref 2024 | Y Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A4 | Sicrhau bod y gofrestr risg corfforaethol yn nodi ac yn gwahaniaethu'n glir rhwng rheolaethau presennol er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o risgiau, a chamau lliniaru newydd i leihau difrifoldeb y risgiau corfforaethol. | Rhaid adolygu'r gofrestr risg corfforaethol a'i diweddaru i sicrhau mwy o eglurder ar reolaethau presennol er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o risgiau, a chamau lliniaru newydd i leihau difrifoldeb y risgiau corfforaethol. | Ionawr 2025 | Y Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd |
| A5 | Sicrhau bod Cynlluniau Tymor Canolig Integredig y dyfodol yn rhoi mwy o eglurder ar y blaenoriaethau y mae'r sefydliad yn bwriadu eu cyflawni yn ystod ail a thrydedd flwyddyn y cynlluniau hynny. | Bydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cwmpasu'r amserlen cynllunio llawn tair blynedd, gan nodi y bydd yn adlewyrchu'r gofynion a'r canllawiau yn Fframwaith Cynllunio y Cynllun Tymor Canolig Integredig a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. | Mawrth 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth |
| A6 | Datblygu dull o adolygu effeithiolrwydd, effaith a heriau posibl ei strategaeth hirdymor o bryd i'w gilydd. | Sefydlu Grŵp Sicrhau Strategaeth newydd i oruchwylio'r hyn a gyflawnir o'i gymharu â'r strategaeth hirdymor, goruchwylio is-strategaethau newydd diweddaredig, ac adolygu ac adrodd | Mawrth 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | cydlynol ar gyfer Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Strategol. | | |
| A7 | Meintioli'r effeithlonrwydd a'r gwerth diriaethol y mae'r sefydliad yn gobeithio ei gynhyrchu o'i ffrwd waith, 'Finding more Value', er mwyn ei alluogi i fonitro cyflawniadau buddion y rhaglen a dangos gwell effeithlonrwydd mewnol i'w randdeiliaid allweddol. | Mae rhaglen 'Adeiladu ein Dyfodol' wedi ei chynllunio â'r nod o uno gweithgareddau trawsnewid ar draws y sefydliad ac o'r herwydd mae'n cynnwys dau fath gwahanol o ffrydiau gwaith:<br>• **Ffrydiau gwaith cyflawnadwy** y mae'r rhaglen yn gyfrifol amdanynt y mae'n cael ei dwyn i gyfrif am eu cyflawni<br>• **Ffrydiau gwaith adrodd** y mae uwch-reolwyr ar draws IGDC yn gyfrifol amdanynt sy'n cael eu dwyn i gyfrif am eu cyflawni<br>Bydd y rhaglen yn cyflwyno'r cynllun trosfwaol a fydd yn olrhain y broses o gyflawni'r holl ffrydiau gwaith perthnasol (gan gynnwys Finding More Value), gan gynnwys eu cerrig | Mawrth 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y rheolwyr**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| | | milltir allweddol a'u cyd-ddibyniaethau:<br>• pan fo hynny'n briodol, bydd pob arweinydd ffrwd waith yn cyflawni ac yn rheoli cynllun rhyngddibynnol wedi ei gostio, a fydd yn cael ei ddefnyddio i hysbysu Bwrdd Rhaglen Adeiladu ein Dyfodol am adnoddau, costau, dibyniaethau a chynnydd. Bydd gwerth pob ffrwd waith yn cael ei lunio a'i ddiffinio ac yna ei olrhain a'i adrodd fel y bo'n briodol.<br>• bydd pob arweinydd ffrwd waith yn dod yn aelod o Fwrdd y Rhaglen. Yn ystod y 'cyfnod darganfod', ar gyfer y metrigau a'r cyflawniadau drafft y mae'n rhaid eu sefydlu erbyn mis Tachwedd 2024 y mae'r llinell amser. | | |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.audit.wales/cy

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.